



## DYCNWCH AMYNEDDGAR

### Llythyr Bugeiliol ar gyfer mis Medi oddi wrth Esgob Llandaff at ffyddloniaid yr esgobaeth

Pan ysgrifennais atoch ddiwedd mis Gorffennaf, roedd y cyfnod clo'n dechrau llacio. Wrth i mi ysgrifennu ganol mis Medi rydym yn dechrau deall, os nad oeddem ni eisoes yn sylweddoli, nad yw llacio'r cyfnod clo yn broses mor syml â hynny. Efallai y bydd llacio un wythnos yn arwain at gloi eto yr wythnos nesaf. Efallai bod un rhyddid yn cael ei roi, ond bod yr un nesaf yn cael ei glymu mewn gofynion diogelwch. Yn gynnar iawn, dechreuodd pobl sôn am y posibilrwydd o 'normal newydd', ond, erbyn hyn, rydym ni'n dechrau gweld sut y bydd hynny'n edrych. Bydd ein heglwysi ar agor ar gyfer addoli, ond bydd yn rhaid i ni wisgo mygydau a chadw pellter cymdeithasol wrth weddïo. Bydd y sagrafennau'n cael eu dathlu, ond efallai bydd mesurau argyfwng yn parhau yn llawer hirach nag yr oeddem ni wedi rhagweld. Gallai gohirio am ychydig fisoedd droi'n ychydig flynyddoedd, wrth i bethau aros yn ansicr, ac mae'n rhaid i iechyd a diogelwch pobl aros yn brif flaenoriaeth.

Mae hyn oll yn gallu ein gwneud yn bryderus ac yn boenus; fel yr oedd y Tad Richard Peers yn ei ddisgrifio wrth gynulleidfa'r Eglwys Gadeiriol y Sul diwethaf, synnwyr o natur annaturus. Byw yn ail hanner 2020 yw byw gydag ansicrwydd a heb wybod beth sy'n mynd i ddigwydd na beth fydd disgwyl i ni ei wneud.

Mae'r Ysgrifurau'n sicr bod yn rhaid i ni, yng nghanol ansicrwydd, roi ein gobaith yn Nuw. Fel y dywed Salm 46: "Mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder. Felly, nid ofnwn er i'r ddaear symud ac i'r mynyddoedd ddisgyn i ganol y môr..." Allwn ni ddim, fel Cristnogion, ddisgwyl cael ein heithrio rhag helyntion – mae hynny'n amlwg eisoes – ond rydym ni'n credu mai Duw sy'n dal yr allwedd i ddyfodol tymor hir ac i dragwyddoldeb. Wrth siarad gyda'i ddisgyblion ychydig cyn trychineb cael ei arestio a digwyddiadau'r Dioddefaint, mae Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion: "Yn y byd hwn fe gewch orthrymder. Ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd." (Ioan 16.33)

Un o ddysgeidiaethau canolog y ffydd Gristnogol yw Cymodi, Gwneud iawn, yn llythrennol Gwneud yn Un. Mae Cristnogion yn credu bod Duw yng Nghrist, drwy farw ar y Groes, yn cymryd holl boen y byd a phris methiannau dynol (o bechod) ar ei ysgwyddau ei hunan – "hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb gyfrif troseddau dynion yn eu herbyn ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod." (2 Corinthiaid 5.19). I'r unigolyn, ystyr hynny yw fod Duw yn cymryd pris ein pechod ar y Groes arno'i hun ac yn ei ddileu; i'r greadigaeth mae'n golygu fod Duw yn gweithredu i iachau popeth sydd wedi torri ac sy'n achosi niwed. Mae'n golygu, yn y tywyllwch, ein bod ni'n gallu canfod ychydig o oleuni, mewn unigedd gallwn ganfod cysur, mewn trallod, gallwn ganfod heddwch. Oherwydd y rhain yw rhoddion gras Duw – i fod gyda ni mewn perygl ac anhawster ac i geisio ein nerthu. Drwy ffydd fel hyn, roedd y Fam Julian o Norwich yn gweld y cyfan o'r greadigaeth wedi'i chlymu megis cneuen Ffrengig fechan yn nwylo Duw, ac yn dweud: "Bydd popeth yn iawn, a bydd popeth yn iawn a bydd pob math o bethau'n iawn."

Mae'n anodd dirnad delweddau a symbolaeth Llyfr y Datguddiad, ond mae'r neges yn ddigon clir: ar ôl holl anrhefn a pheryglon y byd hwn, bwriad Duw yw creu nef newydd a daear newydd ymhle y bydd tangnefedd. Mae hyn yn bosibl oherwydd parodrwydd Duw i ysgwyddo'r gost: yn y Datguddiad, mae Crist yn cael ei gyfleu fel Oen wedi'i ladd ers dechrau'r Byd, ond felly, fel un sy'n deilwng o agor y ffordd i Greadigaeth o'r newydd.

Mae agwedd fel hyn o ffydd yn cael ei ddisgrifio mewn sawl lle yn y Testament Newydd fel "dycnwch amyneddgar". Fy ngweddi i yw y bydd dycnwch amyneddgar fel hyn yn dal i fod yn rhodd parhaus Duw i ni wrth i ni wynebu heriau parhaus y feirws ac eto ymateb mewn ffydd a chyda dewrder.

Bendith Duw fo arnoch i gyd.

*+gregory/laner*